

# BETH YW BIODDIOGELWCH?



*'Bioddiogelwch':* atal lledaeniad  
rhywogaethau estron goresgynnol



Mamaliaid goresgynnol fel  
llygod mawr, llygod bach a  
charlymod sy'n gallu achosi  
niwed difrifol ar ein hynysod  
lle nad oes ysglyfaethwyr.

**A ydych chi'n teithio i ynys?**

Gallwch chi helpu  
drwy gynnal gwiriadau  
bioddiogelwch!



# BETH YW MAMAL ESTRON GORESGYNNOL?

Nid yw rhywogaeth estron oresgynnol yn un sy'n cael ei darganfod yn naturiol mewn ardal/ar ynys, sydd wedi cael ei chyflwyno gan fodau dynol (yn fwriadol neu'n ddamweiniol).

Mae'r rhywogaethau hyn yn gallu cynnwys mamaliaid fel llygod mawr, llygod bach, carlymod, cathod gwyllt, draenogod a mincod, ac mae rhai ohonyn nhw yn frodorol i dir mawr y DU. Gall cyflwyno'r anifeiliaid hyn i'n hynysodd sy'n bell o'r lan arwain at niwed amgylcheddol ac economaidd difrifol.





## PAM MAEN NHW YN PROBLEM?

Gall mamaliaid estron goresgynol achosi amrediad o broblemau i'n hamgylchedd a'n bywydau o ddydd i ddydd.

Mae llawer o famaliaid goresgynol yn helwyr medrus ac maen nhw'n manteisio ar fywyd gwyllt lleol, sydd heb esblygu er mwyn ymdrin â'r ysglyfaethwyr hyn. Mae wyau a chywion adar sy'n nythu ar y llawr ac adar y môr fel palod yn arbennig o fregus, a gall eu poblogaethau gael eu **dinistrio** gan rywogaethau fel llygod mawr. Gall niwedd i gnydau, adeiladau a storfeydd bwyd dynol gael effeithiau niweidiol ar yr economi leol, yn cynnwys ffermio a thwristiaeth ynghyd ag effeithio ar weithgareddau beunyddiol.

## PAM MAEN NHW YN PROBLEM?

Mae llawer o'n hynysodd yn rhydd o ambell ysglyfaethwyr sy'n famaliaid estron goresgynol; nid oes llygod mawr hyd yn oed mewn rhai o'n hynysodd lle mae pobl yn byw arnyn nhw.

Mae'r hynysodd hyn lle nad oes ysglyfaethwyr arnyn nhw ymysg ein hardaloedd pwysicaf ar gyfer adar môr sy'n bridio. Mae'n bwysig atal lledaeniad y mamaliaid estron goresgynol i hynysodd er mwyn diogelu dyfodol y bywyd gwyllt a'r cymunedau sy'n byw arnyn nhw.



# BETH I'W WNEUD WRTH DEITHIO I YNYSOEDD AC ODDI YNO

## CERBYDAU

Mae cerbydau mewn mwy o risg o roi lloches i deithwyr cudd pan maen nhw wedi bod yn llonydd mewn ardal sydd â mamaliaid goresgynol posibl.

Mae cnofilod yn defnyddio ceudodau o fewn y siasi a'r injan er mwyn nythu a chysgu.

Bydd cael gwared â ffynonellau posibl o fwyd o gerbydau yn lleihau'r atyniad ac yn ei gwneud yn haws i'w gwirio. Chwiliwch am arwyddion o deithwyr cudd pan ydych chi'n cynnal a chadw eich cerbyd yn rheolaidd a chyn i chi deithio i ynys.

## CYCHOD

Mae risg uchel mewn ceiau a phorthladdoedd bod mamaliaid goresgynol yno, yn arbennig cnofilod.

Mae cnofilod yn chwilfrydig, yn sionc ac yn nofwyr da. Mae'n hawdd iddyn nhw gael mynd ar unrhyw gwch. Mae cadw cwch yn daclus a storio bwyd mewn cynwysyddion na all cnofilod fynd i mewn iddyn nhw yn lleihau'r atyniad i unrhyw deithwyr cudd. Ystyriwch wneud gwiriadau rheolaidd am gnofilod drwy ddefnyddio cardiau cnoi a chadw trapiau ar fwrdd y cwch er mwyn ymdrin ag unrhyw deithwyr cudd. Os ydych chi'n gweld teithwyr cudd ar fwrdd y cwch tra'r



ydych chi ar y môr, peidiwch â'i daflu allan oherwydd y gallai nofio i ynys gerllaw a pheidiwch â mynd ag ef i ynys lle nad oes ysglyfaethwyr.

## CARGO MAWR

Mae cargo swmpus, fel deunyddiau adeiladu, cyfarpar fferm, bwydydd a gwelltach ar gyfer anifeiliaid, yn risg uchel oherwydd y posibilrwydd iddo gludo mamaliaid goresgynol i ynysoedd.

Gall darparu bwyd a gwres sy'n atyniadol iawn i lawer o rywogaethau fel cnofilod, sy'n ei dro yn gallu denu carlymod. Lle y bo'n bosibl, cludwch cargo wedi'i lapio a'i bacio yn dda, bydd hyn yn ei wneud yn llai deniadol i famaliaid goresgynol yn ogystal â hwyluso'i wirio.

Dylech chi storio cargo oddi ar y llawr mewn adeilad diogel cyn ei gludo ac edrychwch am arwyddion o deithwyr cudd cyn ei lwytho i'r cwch. Peidiwch â chludo bagiau bwydydd anifeiliaid sydd wedi cael eu difrodi. Os gwelir bod teithwyr cudd yno, fel llygod bach mewn byrnau gwair, cyn eu cludo i ynys, tynnwch yr holl anifeiliaid a'u harwyddion oddi yno.



## PACIAU

Gall anifeiliaid bach ddringo i mewn i baciau personol ac maen nhw'n fwy tebygol o wneud hynny os oes bwyd ynddyn nhw. Lle y bo'n bosibl, Paciwrch eich bag ar ddiwrnod y daith i ynys a pheidiwrch â gadael eich paciau mewn ardaloedd risg uchel fel ochr porthladdoedd heb neb i edrych ar eu hôl cyn i chi deithio.



Edrychwch drwy fagiau bob amser cyn teithio a storiwch fwyd mewn cynwysyddion na all cnofilod fynd i mewn iddyn nhw er mwyn lleihau'r atyniad. Dylid gwirio archebion bwyd mawr mewn bocsys os yw'r pecynnu allanol wedi cael ei ddifrodi. Os gwelir bod difrod yno, agorwch y pecyn a chwiliwch am deithwyr cudd. Peidiwch â chludo pecynnau bwyd sydd wedi cael eu difrodi. Ailbaciwch becynnau bwyd sydd wedi cael eu difrodi mewn blwch neu gynhwysydd newydd cyn i chi deithio.

## OEDI GYDA'R TYWYDD

Mae'r tywydd yn amharu ac yn achosi oedi yn rheolaidd wrth deithio i ynysoedd. Pan mae hyn yn digwydd, bydd angen ail-wneud gwiriadau biddiogelwch cyn ailddrechrau teithio.

Dylech osgoi storio cargo mewn ardaloedd risg uchel, fel ochr y cei wrth ddisgwyl i'r tywydd wella. Mae gwelltach anifeiliaid yn risg uchel pan mae'n cael ei adael mewn tywydd gwael, oherwydd y gall ddarparu lle hawdd i famaliaid estron goresgynol lochesu ynddo.

## ARWYDDION O DEITHWYR CUDD




✓ **TYLLAU MYNEDIAD**



✓ **BAW ANIFEILIAID**



✓ **DEUNYDD NYTHU**



✓ **MARCIAU CNOI**









# BETH YDYM NI YN EI WNEUD I HELPŲ?



Rydym yn gweithio yn galed er mwyn codi ymwybyddiaeth o fygythiad ysglyfaethwyr goresgynnol ac rydym yn sefydlu systemau er mwyn osgoi eu cyflwyno yn ddamweiniol i ynysoedd.

Yn benodol, rydym yn canolbwyntio ar 42 o ynysoedd sydd wedi cael eu gwarchod yn arbennig ac sydd wedi cael eu dynodi ar gyfer adar y môr sy'n bridio.

**Rydym yn helpu i warchod y rhywogaethau hyn a'n hynysoedd drwy:**



Weithio gyda rheolwyr tir a chymunedau er mwyn gweithredu cynlluniau bioddiogelwch



Datblygu rhwydwaith o ganolfannau rhanbarthol i ymateb yn gyflym i ymyrraeth



Hyfforddi gweithwyr, defnyddio cyfarpar gwyliadwriaeth ynghyd â hyfforddi ci sy'n ymdrin â bioddiogelwch



Hyfforddi diwydiannau a busnesau morol i leihau'r risg o gyflwyno ysglyfaethwyr yn ddamweiniol



ARIANNWYD GAN



Dewch o hyd i fwy ar [biosecurityforlife.org.uk](https://biosecurityforlife.org.uk)

PARTNERIAETH GYDA



CYLLID YCHWANEGOL GAN : Scottish Natural Heritage, Natural England, Natural Resources Wales and Department Agriculture, Environment and Rural Affairs (Northern Ireland)